01/2025

Annwyl Cristina Squires,

| | |
|---|---|
| Ysgrifennaf ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, sefydliad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a ffyniant cymunedau Cymru ers 1962. Mae materion darlledu o ddiddordeb mawr i ni ac rydym ar ddeall bod Global Radio yn bwriadu dod â darllediadau Cymraeg ar Capital North Wales i ben.<br><br>Byddwch yn ymwybodol bod darpariaeth briodol ar draws cenhedloedd a rhanbarthau y Deyrnas Gyfunol yn rhan allweddol o bolisi llywodraethol, ac yn gyfrifoldeb penodol i Ofcom. Felly hefyd mae cefnogaeth lywodraethol i ddarpariaeth Gymraeg ar y radio a'r cyfryngau yn ehangach.<br>Rydym felly yn hynod siomedig a phryderus o glywed am gynlluniau Global.<br><br>Mae Capital yn dod â darpariaeth a cherddoriaeth Gymraeg at gynulleidfa na fyddai o reidrwydd yn dewis gwrando ar ddarpariaeth Gymraeg y BBC. Byddai'r penderfyniad felly'n yn tanseilio'r delfryd o blwraliaeth darlledu yn y Gymraeg. Yn ogystal, byddai'n ergyd i gymunedau lleol yn ngogledd Cymru, ac yn arwain at golli swyddi a chyfleoedd eraill. Byddai'r penderfyniad yn hynod niweidiol yn ieithyddol, yn gymunedol ac yn economaidd.<br><br>A fyddech gystal â rhannu manylion unrhyw drafodaethau i chi eu cael gyda DCMS a Global am y penderfyniad hwn?<br>Yn benodol, a wnaeth Ofcom gytuno i | I write on behalf of Cymdeithas yr Iaith Welsh, an organisation which has campaigned non-violently for the Welsh language and Welsh communities since 1962. Broadcasting matters are of great interest to Cymdeithas, and we understand that Global Radio plans to discontinue Welsh language Services broadcast on Captial North Wales.<br><br>As you are aware, the proper coverage of the nations and regions in the UK by broadcasting and media organisations is a key part of government policy, and a particular responsibility of Ofcom. So too is government support for the Welsh language across radio and other forms of communications. We were therefore dismayed and deeply concerned to learn of Global's plans.<br><br>Capital provides Welsh-language provision and music to an audience that would not necessarily choose to listen to the BBC's Welsh-language provision. Bringing it to an end would undermine the ideal of plurality in the Welsh medium broadcasting. In addition it will be a blow to local communities in north Wales, and lead to the loss of jobs and other opportunities. Your decision would therefore be extremely damaging, linguistically, on a community level and economically.<br><br>Could you provide us with details of any discussions you had on this matter with |

| | |
|---|---|
| benderfyniad Global? Ac os felly, ar ba sail bu iddo gytuno?<br><br>Yn ogystal, a wnaeth Ofcom geisio barn rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddod at benderfyniad am fwriadu Capital, ac yn benodol barn Llywodraeth Cymru a mudiadau a sefydliadau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r Gymraeg?<br><br>Yn bennaf oll, rydym yn galw arnoch chi i ddefnyddio eich grymoedd rheoleiddio i atal Global rhag diddymu darpariaeth Gymraeg Capital, oherwydd ei effaith ar y Gymraeg a chymunedau Cymru.<br><br>Edrychwn ymlaen at gael ymateb gennych yn ddiymdroi. | Global and the DCMS?<br>In particular, did Ofcom agree to the decision taken by Global? If so, on what grounds did it agree?<br><br>Also, did Ofcom consult stakeholders in Wales, specifically the Welsh Government and organisations in Civil Society which work in and through the Welsh language, when arriving at its position on Global's decision?<br><br>Above all, we call on you to use your regulatory powers to prevent Global from abolishing Capital's Welsh medium provision, due to its impact on the Welsh language and communities in Wales.<br><br>We look forward to a swift and full reply. |

Yn Gywir
??Carl Morris
Cadeirydd Grŵp Digidol Cymdeithas yr Iaith

cc:
Lisa Nandy (Secretary of State for Culture, Media and Sport)
Chris Bryant (Minister for Creative Industries, Arts and Tourism)
Eluned Morgan (Prif Weinidog Cymru / First Minister of Wales)
Jack Sargeant (Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol / Minister for Culture, Skills and Social Partnership)
Sir Clive Jones Aelod Anweithredol Ofcom (Aelod Bwrdd ar ran Cymru) / Non-executive member Ofcom (Board member for Wales)
Elinor Williams (Pennaeth, Materion Rheoleiddiol / Principal, Regulatory Affairs - Ofcom)
Ben Lake MP (Cadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig . Chair of Welsh Affairs Select Committee)